

IS-BWYLLGOR CRAFFU (POLISI AC ADNODDAU) Y CABINET

(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Mawrth, 29 Awst 2023

Cadeirydd:	Cynghorydd P.Rogers
Is-gadeirydd:	Cynghorydd C.Jordan
Cynghorwyr:	C.Clement-Williams, C.Galsworthy, S.Pursey, R.G.Jones, H.C.Clarke a/ac A.J.Richards
Swyddogion sy'n Bresennol:	C.Griffiths, D. Phillips, T.Davies, N.Blackmore a/ac T.Rees
Gwahoddedigion y Cabinet:	Cynghorwyr S.A.Knoyle a/ac A.Llewelyn

1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd y byddai'r pwyllgor yn craffu ar eitem 5 o Agenda Bwrdd y Cabinet.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Cais i'r Gronfa Grantiau Amrywiol (Urdd Siewmyn De Cymru a Gogledd Iwerddon)

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda.

Holodd yr Aelodau a oes unrhyw astudiaeth wedi'i chynnal i ddeall yr effaith yr oedd Ffair Castell-nedd yn ei chael ar fasnach yn nhref Castell-nedd. Roedd yr Aelodau'n awyddus i ddeall pam nad oedd Urdd y Siewmyn wedi derbyn unrhyw gyllid gan y Llywodraeth yn ystod COVID.

Eglurodd swyddogion fod y cais mewn perthynas â'r ffair bleser yn unig ac nid y ffair stryd. Mae'r £31,000 a amlinellir yn y cais yn cwmpasu cost y ffair bleser ar gyfer digwyddiadau a gynhelir ym mis Medi ac yn ystod y Pasg.

Dywedodd y swyddogion fod y meini prawf ar gyfer cyllid COVID ar y pryd wedi'u pennu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Roedd yn rhaid i sefydliadau wneud cais yn uniongyrchol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Nid oedd swyddogion yn gallu rhoi sylw ynghylch pam na chafodd Urdd y Siewmyn gyllid.

Nid oedd swyddogion yn ymwybodol bod unrhyw ddadansoddiad penodol wedi'i gynnal mewn perthynas ag effaith presenoldeb y ffair bleser yn y dref o'i gyferbynnu â pheidio â bod yn bresennol.

Cadarnhaodd swyddogion fod y cais am gymorth ariannol yn cael ei asesu yn ôl y meini prawf a amlinellir yn yr adroddiad. Nid oes gofyniad i'r ymgeisydd ddangos ei fforddiadwyedd ar gyfer y digwyddiad y mae'n gwneud cais am gyllid ar ei gyfer.

Cododd yr Aelodau bryder ynghylch defnyddio'r polisi gan ofyn a oedd yn addas i'r diben mewn perthynas â'r ffaith ei fod ar gyfer sefydliadau elusennol a gwirfoddol ac er budd y gymuned. Holodd yr Aelodau ynghylch pa fudd sydd i Urdd y Siewmyn a sut mae hynny'n rhoi nôl i'r gymuned leol, gan fod yr elw'n cael ei rannu ymhlith y rheini sy'n ymwneud â'r digwyddiad, ac nid yn cael ei roi i'r gymuned.

Cadarnhawyd bod Urdd y Siewmyn yn gasgliad o unigolion ac nid yw'n endid cyfreithiol yn ei rinwedd ei hun ac felly nid oedd gofyniad i sefydliad fod yn sefydliad gwirfoddol neu elusennol, dim ond os yw sefydliad o'r math hwn yn gwneud cais, rhaid iddo fod yn ymroddedig i ymdrechion lleol eu natur.

Eglurodd swyddogion nad yw'r telerau a amlinellir uchod yn atal sefydliadau eraill rhag gwneud cais. Pwrpas y grant amrywiol yw bod yn un sy'n cwmpasu pawb yn gyffredinol, lle nad oes modd defnyddio grant penodol. Yr awdurdod lleol sydd â'r disgrisiwn o ran a yw Aelodau'n dymuno caniatáu cymorth neu beidio i'r sefydliad sy'n gwneud cais.

Roedd yr adroddiad yn datgan os nad oedd y grant yn llwyddiannus yna ni fyddai'r ffair yn mynd yn ei blaen. Mynegodd yr Aelodau eu pryder bod Cyfathrebiadau CNPT wedi cyhoeddi datganiad ar 23 Awst 2023 a oedd yn dweud yn glir bod y ffair yn mynd yn ei blaen.

Cadarnhaodd swyddogion fod nifer o bolisiâu'n cael eu hadolygu gan y Pennaeth Diwylliant, Hamdden a Thwristiaeth, gan weithio gyda'r Pennaeth Adfywio a swyddogion perthnasol eraill i ystyried digwyddiadau a'r modd y rheolir digwyddiadau'n gyffredinol a sut mae'r cyngor yn ymwneud â'r sefydliadau hynny. Bydd rhan o'r adolygiad yn ymwneud â digwyddiadau y gofynnir i'r cyngor gyfrannu'n ariannol atynt. Gall hyn gyfeirio at y Cynllun Grantiau Amrywiol ac unrhyw gronfa grantiau arall sy'n ymwneud â'r maes hwn. Byddai unrhyw newidiadau angenrheidiol yn benderfyniad gweithredol fel y byddai gan y pwyllgor craffu gyfle i ystyried yr eitemau'n fanylach ar yr amser priodol pe dymument.

Yn dilyn craffu, cafodd yr adroddiad gefnogaeth i fynd gerbron Bwrdd y Cabinet.

4. **EITEMAU BRYD**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

TRAILER_SECTION>

CADEIRYDD